# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o’r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 5 Ebrill 2017 am 11.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Pete Prendergast, Cefyn Williams a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Cefyn Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau’r gwrandawiad wedi eu hanfon ynghynt at bawb ac roedd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gael yn y cyfarfod.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: VINTAGE SUGAR TEAROOMS, 27 - 29 MELIDEN ROAD, PRESTATYN

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd yn flaenorol) ynglŷn â’r canlynol –

(i) cais a dderbyniwyd gan Mrs Dawn Roberts am drwydded eiddo newydd ar gyfer Vintage Sugar Tearooms, 27 - 29 Meliden Road, Prestatyn (atodiad A);
(ii) bwriad yr ymgeisydd i redeg yr eiddo fel ystafell de yn bennaf, gan weini te'r prynhawn a chinio gydag alcohol fel dewis ychwanegol, ac i agor gyda'r nos i weini diodydd alcoholig a bwyd.

(iii) cais yr ymgeisydd i ddarparu alcohol fel a ganlyn –

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG | DYDDIAU PERTHNASOL | AMSEROEDD |
|---|---|---|
| Cyflenwi alcohol (i’w yfed yn yr eiddo ac oddi ar yr eiddo) | Dydd Llun – dydd Sul | 08.00 – 23:00 |
| Oriau agor i’r | Dydd Llun – dydd Sul | 08.00 – 23:00 |

(iv) un sylw ysgrifenedig (Atodiad B) sydd wedi ei gyflwyno gan barti â diddordeb mewn ymateb i’r hysbysiad cyhoeddus yn ymwneud â’r aflonyddwch posibl o ganlyniad i sŵn.

(v) parodrwydd yr ymgeisydd i gyfryngu gyda'r parti â diddordeb – yn anffodus, nid yw'r parti â diddordeb wedi cysylltu â'r Awdurdod o gwbl i ganiatáu unrhyw fath o gyfryngu;

(vi) yr angen i ystyried y cais gan roi ystyriaeth ddyladwy i Ddatganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor; i Ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; i ddeddfwriaeth arall berthnasol ac i sylwadau perthnasol a dderbyniwyd; a’r

(vii) opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Rhoddodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM) grynodeb o’r adroddiad ac amlinellodd ffeithiau'r achos.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Roedd yr ymgeisydd, Mrs Dawn Roberts yn bresennol er mwyn cefnogi ei chais.

Eglurodd Mrs Roberts y byddai’r eiddo yn cael ei redeg fel ystafell de yn bennaf a'i bod wedi gwneud cais am drwydded i agor hyd at 11pm er mwyn gallu cynnal digwyddiadau arbennig achlysurol fel partïon pen-blwydd priodas a phartïon anrhegion babi. Y bwriad yw agor ddim cynt na 10am a chau rhwng 5pm a 6pm yn ystod yr wythnos ac i redeg y lleoliad fel lle bwyta yn bennaf, ac mae cogydd wedi ei gyflogi at y diben hwnnw. Rhoddwyd sicrwydd i’r Aelodau nad creu sefydliad swnllyd a niwsans yw’r bwriad, ond i ddarparu sefydliad parchus a fyddai’n gwella’r dref.

**CYFLWYNIAD Y PARTI Â DIDDORDEB**

Roedd y parti â diddordeb wedi mynegi nad oedd yn dymuno mynychu'r gwrandawiad ond gofynnodd i’w sylwadau ysgrifenedig gael eu darllen allan (Atodiad B).

Holodd yr Aelod am agosrwydd preswylfa’r parti â diddordeb i’r eiddo dan sylw. Dywedwyd bod preswylfa’r parti â diddordeb dwy stryd i ffwrdd. Dywedodd yr ymgeisydd ei bod wedi cyflwyno ei hun i’r trigolion cyfagos er mwyn rhoi sicrwydd iddynt ynghylch ei bwriad a’u hannog nhw i gysylltu á hi os oedd ganddynt unrhyw bryder. Roedd yr ymgeisydd yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan y parti â diddordeb a dywedodd ei bod yn fodlon cwrdd â hi i geisio lleddfu rhai o’r pryderon hynny. Er nad yw’r eiddo yn debygol o arwain at niwsans o ran sŵn, cadarnhaodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd y byddai unrhyw gŵyn yn cael ei drin yn unol â’r drefn arferol.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Yn ei datganiad terfynol dywedodd yr ymgeisydd ei bod wedi derbyn ymateb cadarnhaol i’w chynlluniau, gyda llawer o bobl yn edrych ymlaen at yr agoriad. Er ei bod yn gwerthfawrogi’r pryderon a godwyd gan y parti â diddordeb, nid oes ganddi unrhyw fwriad i darfu ar bobl.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (11.40 am) gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**PENDERFYNIAD A RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Drwydded Eiddo yn unol â'r cais a gyflwynwyd a'r amodau a nodir yn yr Atodlen Weithredu, sef –*

| ***GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG*** | ***DYDDIAU PERTHNASOL*** | ***AMSEROEDD*** |
|---|---|---|
| *Cyflenwi alcohol (i'w yfed yn yr eiddo ac oddi ar yr eiddo)* | *Dydd Llun – dydd Sul* | *08.00 – 23:00* |
| *Oriau agor* | *Dydd Llun – dydd Sul* | *08.00 – 23:00* |

Bu i'r Cadeirydd gyfleu penderfyniad yr Is-bwyllgor i'r ymgeisydd a rhoddodd y Cyfreithiwr y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn –

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y cais a'r sylwadau a gyflwynwyd yn ofalus ac yn ystyried bod y cais a'r amodau a osodwyd yn bodloni'r holl ofynion trwyddedu. Roedd y pwyllgor hefyd yn fodlon na fyddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y gymdogaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.